



Tenant Voice Sponsor



Llais y Tenantiaid ar Covid-19 - Cam 3

Rhagfyr 2020

www.tpas.cymru

Yr adroddiad hwn yw cam 3 o gyfres sy'n edrych ar brofiadau tenantiaid ledled Cymru mewn perthynas â phandemig Covid-19. Nod yr adroddiad hwn yw deall sut mae'r pandemig wedi effeithio ar fywydau pobl a'r hyn y mae tenantiaid yn ei ystyried sy'n bwysig iddynt o ran ymgysylltiad a chefnogaeth landlordiaid.

Ymatebodd tri chant chwe deg wyth o denantiaid i'r arolwg hwn o bob un o'r dau ar hugain o ardaloedd Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac er ein bod yn cydnabod nad yw hyn yn gynrychioliadol o'r boblogaeth tenantiaid gyfan, rydym yn hyderus bod y canfyddiadau'n cynnig mewnwelediad gwerthfawr.

Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn gweithredu fel sylfaen i helpu landlordiaid i lunio eu gwasanaethau yn unol â disgwyliadau a chanfyddiadau tenantiaid yn ystod amseroedd mor ansicr.

Prif Ganfyddiadau:

- Gan Gymdeithasau Tai (CT) y mae'r gynrychiolaeth uchaf o denantiaid a gwblhaodd yr arolwg hwn. Mae hyn yn gyson â'n camau un a dau o ddilyniant adroddiadau 'Llais y Tenantiaid ar Covid-19'
- Nid yw tenantiaid yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn eu cymuned o ran lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd
- Mae tenantiaid ar draws deiliadaethau eisiau mwy o wybodaeth, cyfathrebu a chefnogaeth gan eu landlordiaid
- Mae treuliau ychwanegol i denantiaid sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Covid-19 gan gynnwys defnyddio'r rhynggrwyd a chost gwneud eu siopa ar-lein
- Mae incwm isel a chodiadau rhent yn effeithio ar allu tenantiaid i dalu eu rhent a'u biliau
- Mae tenantiaid wedi dod yn fwy cyfforddus o ran caniatáu atgyweiriadau a chynnal a chadw yn eu cartrefi ers dechrau'r pandemig
- Mae tenantiaid eisiau i flaenoriaethau landlordiaid yn y dyfodol ganolbwyntio ar gyfathrebu, ansawdd eu cartrefi, cefnogi rheoli anawsterau ariannol, a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Trosolwg o brofiadau tenantiaid o'r pandemig Covid-19

Dros yr wyth mis diwethaf, mae tenantiaid wedi rhannu eu profiadau gyda ni dros gyfres o dri arolwg: Ebrill, Mehefin, a Thachwedd 2020. Rydym wedi gweld cynnydd mewn ymwybyddiaeth tenantiaid o ran gwybodaeth am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud os ydynt yn methu â thalu eu rhent, yn ogystal â gweld hw b sylweddol yn y defnydd o ddulliau digidol. Mae pryderon tenantiaid wedi newid dros amser, gyda'r ffocws cychwynnol ar fynd yn sâl, ac yna symudiad tuag at fethu â thalu eu biliau.

Er nad ydym yn ymwybodol o union effaith Covid-19 ar feddyliau a theimladau tenantiaid, bu gweddnewidiad sylweddol o ran ystyried caniatáu mynediad i wneud atgyweiriadau a chynnal a chadw. Mae'n amlwg bod tenantiaid bellach yn teimlo'n fwy cyfforddus yn caniatáu mynediad i'w cartrefi. Ym mis Mawrth, dywedodd 43% o denantiaid wrthym na fyddent yn teimlo'n gyfforddus yn caniatáu mynediad ar gyfer cynnal a chadw hanfodol, o'i gymharu â dim ond 11% ym mis Tachwedd.

Er bod dros hanner y tenantiaid (57%) yn teimlo nad yw talu eu rhent yn bryder iddynt, roedd y rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi yn ei gysylltu â'r ffaith fod eu rhent yn cynyddu'n gyflymach na'u hincwm.

Hoffai tenantiaid mewn tai cymdeithasol ac yn y sector preifat gael mwy o wybodaeth am weithgareddau cymunedol er mwyn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae hyn yn gyson â'r arolwg cyntaf a gynhaliwyd gennym ar ddechrau'r pandemig lle nad oedd 76% o denantiaid yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau landlordiaid i'w cefnogi. Rydym wedi gweld cynnydd mewn ymwybyddiaeth, er bod 60% o denantiaid tai cymdeithasol a 50% o denantiaid preifat yn dal i deimlo bod angen mwy o wybodaeth.

Dulliau ymchwil

Trwy ddefnyddio ein plattform Pwls Tenantiaid, gwnaethom arolwg ar-lein ym mis Hydref 2020. Gofynnwyd i denantiaid o bob deiliadaeth am eu profiadau mewn perthynas â phandemig Covid-19, yn dilyn arolygon blaenorol ym mis Ebrill a mis Mehefin 2020. Cafwyd 368 o ymatebion yn ymwneud â phob un o'r 22 Ardal Awdurdod Lleol (gweler Atodiad A). Cafwyd ymateb gan 219 o denantiaid Cymdeithas Tai, 96 o denantiaid Awdurdod Lleol, 32 o denantiaid preifat, 6 o dai â chymorth a 15 o rai eraill (gweler Atodiad B).


Ymatebwyr

Roedd 59% o'r ymatebwyr yn denantiaid cymdeithasau tai sy'n gyson â'r arolwg cyntaf ym mis Mawrth. Mae'r ymateb gan denantiaid Awdurdod Lleol wedi cynyddu rhywfaint a bu gostyngiad sylweddol mewn ymateb gan denantiaid preifat gyda chyfradd ymateb o 9% o'i gymharu â'r arolwg blaenorol lle roedd gennym gyfradd ymateb o 16% dros 496 o denantiaid.

Ardal awdurdod lleol yr ymatebwyr

Er bod gan yr arolwg gynrychiolaeth o bob un o'r 22 ardal Awdurdod Lleol, roedd y gynrychiolaeth uchaf ym Mro Morgannwg ar 14%, tra bod Caerdydd ar 11%, er gwaethaf y gwahaniaeth enfawr ym mhoblogaeth yn y ddwy ardal. Roedd 37% o'r 50 ymateb o Fro Morgannwg gan denantiaid Awdurdod Lleol.

So we can understand you better, are you a:



Ers yr arolwg blaenorol, bu cynnydd amlwg yn yr ymatebion o Geredigion, gyda thri chwarter ohonynt gan Denantiaid Cymdeithas Tai. Mae ymatebion Conwy wedi lleihau ond maent yn parhau i fod yn y 5 uchaf.


Crynodeb o'r canfyddiadau

Crynohoir y canfyddiadau dan y pum thema canlynol.

1. Defnydd o wasanaethau ar-lein yn ystod y cyfnod clo

Dyweddodd bron i hanner yr ymatebwyr (44%) eu bod wedi defnyddio gwasanaethau ar-lein yn fwy nag yr oeddent o'r blaen. O'r rhai a atebodd 'na', roedd 26% yn denantiaid cymdeithasau tai, a 32% yn denantiaid awdurdod lleol.

Since the pandemic have you started to use online services more than you did previously?




Ardaloedd gyda'r ymateb uchaf	Ardaloedd gyda'r ymateb isaf
1. Bro Morgannwg	17. Gwynedd/Castell-nedd
2. Caerdydd	18. Caerffili/Torfaen
3. Abertawe	19. Merthyr Tudful
4. RhCT	20. Wrecsam
5. Powys/Conwy	21. Sir y Fflint
6. Ceredigion	22. Ynys Môn

Roedd y canfyddiadau hyn yn gyson â'r rhai yn ein harolwg cam 2 ym mis Mai, lle roedd 45% o'r ymatebwyr wedi defnyddio gwasanaethau ar-lein lawer mwy. O fewn yr arolwg hwn, roedd amrywiad bach ar draws tenantiaid CT a thenantiaid ALI a ymatebodd 'na'. Roedd 32% o'r ymatebion a nododd 'na' neu 'ddim o gwbl' yn denantiaid ALI, o'i gymharu â 26% o denantiaid cymdeithasau tai, er nodir y gallai hyn fod yn gysylltiedig â maint y sampl.

2. Ymgysylltu â'r gymuned i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd

Nid oedd 58% o denantiaid traws-ddeiliadaeth wedi gweld unrhyw beth yn digwydd yn eu cymuned i wneud i bobl deimlo'n llai ynysig.

Have you seen anything happening in your community that will help people to feel less isolated?



Roedd gwahaniaeth amlwg yn ymatebion tenantiaid rhent preifat a thenantiaid CT. Roedd 33% o ymatebwyr yn y sector preifat wedi gweld pethau'n digwydd yn eu sefydliad cymunedol lleol o gymharu â dim ond 18% o denantiaid CT a 29% o denantiaid ALI. O ran gweithgareddau cymunedol landlordiaid, roedd 15% o ymatebwyr CT a 3% o ymatebwyr yr ALI wedi sylwi ar ddigwyddiadau.

Fodd bynnag, wrth edrych ar y sylwadau yn seiliedig ar ddeiliadaeth, roedd yn amlwg bod y canfyddiad o 'gymuned' yn amrywio. Mae tenantiaid preifat yn ystyried eu hardal leol fel eu cymuned ond nododd tenantiaid tai cymdeithasol eu cymuned fel yr ystâd dai neu'r safle tai y maent yn byw ynddi.

Mewn rhai achosion, awgrymodd tenantiaid y byddent yn elwa o ymgysylltu â'r gymuned, ond nid yw hynny wedi digwydd.

"Rwy'n newydd i'r ardal. Fodd bynnag, wrth siarad â theulu agos gyda theulu ifanc a pherthnasau hŷn, nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth sy'n digwydd yn ein cymuned a fyddai'n helpu pobl i deimlo'n well. Yn arbennig mae rhieni plant iau a phobl hŷn, llai symudol yn cael eu heffeithio'n fwy niweidiol gan ddiffyg cysylltiadau â chymheiriaid."

"Nid wyf wedi gweld unrhyw beth gwahanol, roeddwn yn arfer cael galwad gan gymorth cartref ar ôl i'm gŵr farw, ond nid yn ddiweddar"

"Mae grwpiau penodol yn cael eu cefnogi, ond os nad ydych chi'n rhan o grŵp wrth-risg swyddogol, mae wedi bod yn rhy hawdd anwybyddu'r allanolion"

"Rwy'n byw ar safle tai cysgodol, rydym wastad wedi cael llawer o weithgareddau trwy gydol yr wythnos, ond nid ydym wedi cael dim ers mis Mawrth - nid ydym hyd yn oed yn cwrdd yn yr ystafell fwyta nawr chwaith, mae'n ymddangos ei fod yn gwaethygu wrth i'r wythnosau fynd heibio"

"Mae'n ymddangos bod bywyd yn debyg i arfer. Rwy'n sengl ac nid oes gennyf unrhyw deulu ac felly rwy'n tueddu i deimlo ychydig ar wahân gan fod pwyslais bob amser ar bobl sydd eisiau cyfarfod a chymdeithasu â theulu. Pan fydd cymdeithasu yn gyfyngedig, ymddengys nad oes unrhyw un i mi gymdeithasu ag ef"

3. Gwybodaeth sydd fwyaf defnyddiol i denantiaid


Nododd tenantiaid y tri maes canlynol fel y rhai pwysicaf iddynt o ran rhannu gwybodaeth.

1. Sut mae atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn ddiogel/ beth sy'n digwydd yn eich cymuned (23%)
2. Sut y gwneir penderfyniadau (16%)
3. Gwybodaeth am wasanaethau landlordiaid (15%)

Yn gyson â'r cwestiwn blaenorol, roedd ymatebwyr yn teimlo bod gwybodaeth am weithgareddau cymunedol yn bwysig iawn iddynt. Yn wahanol i'r arolwg blaenorol lle nad oedd cymuned yn cael ei hystyried mor bwysig ag atgyweiriadau neu wybodaeth am wasanaethau landlordiaid, mae ymatebwyr bellach yn teimlo bod gwybodaeth am weithgareddau cymunedol yr un mor bwysig ag atgyweiriadau diogel.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng ymatebwyr CT ac ALL, gyda'r ddau grŵp o'r farn mai gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned oedd y peth pwysicaf iddynt.

What information from your landlord would be most useful? (select 3 most important)



Pwysleisiodd y tenantiaid y gostyngiad mewn atgyweiriadau cartrefi yn ystod y pandemig, a diffyg cefnogaeth gan landlordiaid.

"Mae fy landlord cymdeithasol fel arfer yn rhagorol ond heblaw am gael gwybod eu bod yn dilyn y cyfyngiadau yn gaeth, nid ydynt wedi bod mewn cysylltiad"

"Byddai llythyr neu alwad ffôn oddi wrth fy landlord yn cael ei werthfawrogi i sicrhau eu bod yn iawn yn byw gyda'r feirws, nid oes gan rai gefnogaeth deuluol"

"Mae'n beth gwael na ellir gwneud atgyweiriadau i dai oni bai eu bod yn barnu eu bod yn angenrheidiol ... ni ellir cau ffenestr wedi rhewi! Ond maent yn anfon syrfëwr allan i wneud arolwg ynni"

Amlygodd ymatebwyr yr angen am ddiweddariadau cynnydd rheolaidd gan eu landlordiaid.

"Rwy'n credu y byddai pobl yn fwy cyfforddus o wybod bod y pethau hyn yn cael eu trin ac nad oes ganddyn nhw reswm i boeni".

"Mwy am yr hyn sy'n digwydd YN WIRONEDDOL ac yn cael ei wneud i ni"


"Dim ond cyfathrebu mwy o wybodaeth, yn aml ac yn llawnach"

"Sut i fynd ar ôl atgyweiriadau yr adroddwyd amdanynt ychydig cyn cloi i lawr ym mis Mawrth nag ymdriniwyd â nhw - sydd wedi ein harwain i dalu am rai atgyweiriadau ein hunain i wneud yr ardal yn ddiogel."

4. Dealltwriaeth o'r hyn ddylid ei wneud os na ellir talu'r rhent

Roedd dros chwarter yr ymatebwyr (29%) yn ansicr o'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd os na allent dalu eu rhent.

If you are unable to pay your rent, do you know what to do? Please tell us more in the comments box



Mae'r ffigwr hwn, fodd bynnag, wedi gostwng ers ein harolwg cam 1 a cham 2, lle nad oedd 35% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o beth i'w wneud pe na allent dalu eu rhent. Wrth gymharu'r ymatebion gan denantiaid CT, tenantiaid ALL, a thenantiaid preifat, y tenantiaid ALL oedd y rhai mwyaf gwybodus (76%); roedd 64% o

denantiaid preifat yn gwybod beth i'w wneud, ac roedd 70% o denantiaid CT yn gwybod beth i'w wneud o dan yr amgylchiadau hyn.

Nododd y tenantiaid a ymatebodd Na i'r cwestiwn hwn ddau brif bwynt:

Talwyd eu rhent trwy fudd-daliadau, felly nid oeddent yn ymwybodol o'r broses.

"Telir am fy rhent trwy fudd-dal tai"

"Mae fy un i yn mynd yn uniongyrchol o fy Nghredyd Cynhwysol bob mis"

Nid oeddent wedi derbyn gwybodaeth gan eu landlordiaid.

"Rwy'n byw mewn perchnogaeth a rennir, felly 'does gen i ddim syniad beth i'w wneud. Nid wyf erioed wedi cael y wybodaeth honno."

"Pe bawn i mewn sefyllfa o beidio â thalu fy rhent, ni fyddai gennyf unrhyw syniad ynghylch y cam nesaf heblaw cysylltu â nhw."

5. Achosion yr anawsterau i dalu'r rhent

Nid oedd dros hanner yr ymatebwyr (59%) yn wynebu unrhyw anawsterau wrth dalu rhent a biliau.


Awgrymodd y rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd mai incwm isel (16%) oedd y ffactor mwyaf.

"Mae fy rhent a biliau yn cynyddu o hyd, ac rydw i'n dal i geisio mynd i lety rhatach (trwy gynnig) ond rydw i'n 69 mlwydd oed ac ar fy mhen fy hun a milltiroedd i ffwrdd oddi wrth fy nheulu ac unrhyw gefnogaeth ac maen nhw'n dweud wrtha i nad ydw i'n gymwys, felly nid ydw i yn cael i unrhyw le, ac mae fy iselder yn gwaethygu gyda'r holl broblemau. "

"Y rheswm pennaf i mi yw mai dim ond un cyflog sydd gen i i gynnwys bob peth; gallaf ymdopi yn weddol dda ond y dreth gyngor yw poen fy mywyd."

"Rhaid i fudd-daliadau fod yn uwch nag ydyn nhw, gan eu bod yn is na lefel tlodi ac yn is na'r hyn y mae'r llywodraeth wedi'i ddweud yw isafswm cyflog byw. Angen cynyddu budd-daliadau"

If you are struggling to pay rent/bills what is causing this?



Roedd y rhai a ymatebodd 'arall' wedi pwysleisio'r goblygiadau cost sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19.

"Fel aelwyd oedolyn sengl, mae fy nhreuliau wedi cynyddu rhywfaint gan na allaf weithio o gartref ac am ran o'r cyfnod clo, ni allwn ymweld â theulu. Rwy'n gweithio sifftiau felly nid oedd bob amser yn bosibl cyrraedd y siopau yn ystod yr amseroedd agor cyfyngedig, felly roeddwn i'n dibynnu ar gludfwyd sy'n costio mwy. Mae'r Llywodraeth wedi darparu cefnogaeth ar gyfer incwm isel, ond nid wyf yn dod i mewn i'r categori hwn, ac nid oes dim byd i eraill sy'n dal i weithio'n galetach nag erioed."

"Cafodd fy swydd ran-amser ei rhoi ar ffyrlo, nawr mae hi wedi dod i ben, gan arwain at ansicrwydd yn y dyfodol ynghylch fy incwm gan fod y dyddiad pensiwn i weld ymhellach i ffwrdd nag erioed. Mae'r cynnydd mewn defnydd digidol wedi arwain at filiau ffôn llawer uwch y mae'n rhaid eu hail-drefnu nawr ar delerau a allai fod yn anffafriol yn y tymor hir."

"Cynnydd mewn costau siopa ar-lein, trydan a gwresogi. Gorfod gosod camera diogelwch oherwydd nad oes gen i ardd ddiogel. Ni ellir gwneud atgyweiriadau tan ar ôl Covid. Mae'r costau ychwanegol hyn yn fy rhoi mewn sefyllfa o orfod torri'n ôl ar gostau byw hanfodol."

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng deiliadaethau.

6. Mynediad i wneud atgyweiriadau a chynnal a chadw

Roedd 89% o'r ymatebwyr yn teimlo'n gyfforddus yn caniatáu timau cynnal a chadw i mewn i'w cartrefi. O'r ymatebwyr a oedd yn gyfforddus â hyn, roedd thema gyson ym mhwysigrwydd mesurau diogelwch i'r timau cynnal a chadw a'u teuluoedd.


"Rwy'n gyfforddus, ond rhaid i'r gweithwyr ddysgu cadw eu masgiau ymlaen yn iawn."

"sicrhau fod gan bob gweithiwr ddarpariaethau PPE digonol"

"sicrhau fod yr holl weithdrefnau diogelwch ar waith - tymheredd, masgiau, jel llaw a PPE llawn lle bo angen; gorfodir y rheolau a bydd aelod o staff neu ofalwr yn hebrwng yr unigolyn i'ch fflat ac yn aros gyda nhw, os oes angen."

"Gofynnwch i weithwyr wisgo masgiau ar y pwynt cyswllt 1af wrth y drws ffrynt. Unwaith y tu fewn a gweithio ar y broblem ac y gallwn i fod mewn ystafell arall, yna ni fyddai ots gennyf iddynt dynnu eu masgiau i weithio"

Are you comfortable allowing general repairs and maintenance to be carried out inside your home?



Nododd yr 11% o ymatebwyr nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn caniatáu atgyweiriadau a rhoesant eu rhesymau pam. Roedd y rhain yn disgyn i ddau brifategori:

- 1) Hynod fregus oherwydd salwch
- 2) Pryder cynyddol

"Fuaswn i ddim. Roeddwn i'n cysgodi o'r blaen. Nid wy'n fodlon cael rhywun sy'n rhyngweithio â channoedd o bobl yn y gymuned yn dod i fewn i fan caeedig, un rydw i'n methu symud ohono."

"am aros nes nad ydw i'n gorfod hunan-ynysu mwyach"

"Dim byd! Mae'n fwy i wneud â fy mhroblem i gyda phryder"

"Dim byd a dweud y gwir, fy mhryder i sy'n ei achosi"

Bu newid sylweddol yng nghanfyddiadau ymatebwyr ers ein harolwg cam un lle byddai llai na hanner (49%) yr ymatebwyr wedi teimlo'n gyfforddus yn caniatáu atgyweiriadau a chynnal a chadw. Cynyddodd hyn yng ngham dau pan nododd 84% y byddent yn gyfforddus. Mae 92% o denantiaid CT a 92% o denantiaid ALI yn gyfforddus, o gymharu â dim ond 71% o denantiaid preifat.

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Gofynnwyd i ymatebwyr beth ddylai blaenoriaethau eu landlordiaid fod yn y dyfodol ac roedd pedair thema allweddol yn dod i'r amlwg o'r sylwadau:

- 1) Cyfathrebu â thenantiaid
- 2) Gwella ansawdd cartrefi
- 3) Cynnal deiliadaethau
- 4) Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Cyfathrebu â thenantiaid

Ymddengys mai cyfathrebu â thenantiaid oedd y peth pwysicaf i denantiaid trwy gydol y cwestiwn hwn gyda ffocws clir ar leihau arwahanrwydd, cynyddu cefnogaeth, cadw'n gyfredol â gwybodaeth a gwella cymunedau.

"Gwarchod tenantiaid rhag unigrwydd a diffyg ymwybyddiaeth, o'u cyflwr eu hunain ac o ba wasanaethau sydd ar gael."

"Trin tenantiaid sy'n cael trafferthion gydag urddas ac ychydig mwy o ddealltwriaeth"

"Pan fydd swyddog tai newydd yn ei le, efallai galw ar bobl leol a chyflwyno eu hunain, gan gynnig help pan fo angen. Dim gadael pobl yn y tywyllwch ynghylch pwy sy'n gyfrifol."

"Rwy'n credu y dylent fod mewn mwy o gyswllt i sicrhau bod y tenantiaid yn iawn, a'u sicrhau bod y landlord yn ymwybodol o holl ganllawiau'r llywodraeth a sut mae'n berthnasol i'w tenantiaid."

"Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid am unrhyw atgyweiriadau neu ddiweddariadau tebygol, yn lle postio llythyr trofaus safonol yn unig trwy flychau llythyrau"

"Gweithredu fel petai eu tenantiaid yn bwysig; ar hyn o bryd rydw i a mwyafrif fy nghymdogion yn teimlo ein bod wedi cael ein gadael, ond wedyn, roedd hynny'n wir cyn i'r feirws daro"

Gwella ansawdd cartrefi

Roedd gwella ansawdd cartrefi yn ymwneud ag atgyweiriadau a chynnal a chadw gyda ffocws ar yr atgyweiriadau sy'n weddill, a diogelwch a chynheswydd y cartref.

"Sicrhau bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud i leihau treuliau'r tenant a sicrhau ei gysur. Os oes rhaid i ni aros adref, byddai'n braf peidio â gwyllo'r glaw yn rhedeg i lawr y waliau TU MEWN."

"Yn bersonol, ac rwyf yn clywed bod yr un broblem gan lawer o denantiaid, mae'r sôn yn bennaf am atgyweiriadau a chynnal a chadw, i'w cael nhw i'w gwneud yn gyflym ac yn iawn y tro cyntaf"

"Dod ag eiddo hŷn i safon stoc tai newydd, lle bo hynny'n bosibl."

"Sicrhau bod tenantiaid yn byw mewn eiddo diogel sydd wedi'i atgyweirio'n addas"

Cynnal deiliadaethau

Amlygodd ymatebwyr yr angen am gymorth ariannol i alluogi tenantiaid i gadw eu cartrefi ar ôl colli incwm.

"Cadw pobl sydd fel arfer yn denantiaid da yn eu cartrefi. Gyda cholli swyddi neu ostyngiad mewn incwm, dangos iddyn nhw ble i gael help, a/neu caniatáu amser ychwanegol i dalu."

"helpu'r rhai sy'n cael trafferthion gyda dyled."

"Sicrhau bod pobl sydd wedi colli swyddi ac sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd yn flaenoriaeth."

Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Roedd ychydig bach o'r ymatebion yn sôn am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn aml roedd hyn wedi'i ymgorffori mewn sylwadau ynghylch cyfathrebu.

"Gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd yn y gymuned."

"Problemau cymdogion gwrthgymdeithasol ac aflonyddu"

"Cefnogi tenantiaid sy'n cael anawsterau gyda'u cymdogion a darganfod pam, er mwyn gallu eu datrys"

Casgliad

Dengys yr adroddiad hwn na fu cyfathrebu â thenantiaid erioed cyn bwysiced. Mae Covid-19 wedi gostwng lefel y cyswllt dynol y mae pobl yn ei gael ac mae tenantiaid ar draws deiliadaethau yn teimlo y byddent yn elwa o'u landlord yn darparu mwy o gefnogaeth a diweddariadau rheolaidd. Amlygodd tenantiaid bwysigrwydd lleihau unigrwydd a defnyddio dulliau syml fel galwad ffôn i gadw llesiant yn uchel.

Wrth ystyried y fenter cynhwysiant digidol, awgryma'r adroddiad hwn welliannau sylweddol mewn gweithgaredd ar-lein, gyda 73% o'r ymatebwyr yn defnyddio dulliau digidol yn fwy nag a wnaethant cyn y pandemig. Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai hyn fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â defnyddio dulliau arolygu ar-lein yn unig. Nid oedd fersiwn argraffedig ar gael i'w phostio oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Roedd tenantiaid mewn tai cymdeithasol a oedd yn teimlo eu bod yn cael trafferth â'u rhent yn ei gysylltu ag incwm isel; gyda ffactorau gan gynnwys eu rhent yn codi'n uwch na'u hincwm. Canfu Sefydliad Joseph Rowntree fod codiadau rhent yn y sector tai cymdeithasol wedi arwain at daflu 40,000 o rentwyr cymdeithasol i lawr i lefel tloedi. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ehangu ymwybyddiaeth o'r hyn y mae fforddiadwyedd yn ei olygu i denantiaid wrth archwilio model rhent newydd i Gymru, er mwyn sicrhau nad yw rhent yn fwy nag incwm.

Roedd ffactorau ychwanegol yn gysylltiedig â chostau annisgwyl yn ymwneud â'r pandemig, gan gynnwys mwy o ddefnydd o'r rhyngwrwyd a thaliadau siopa ar-lein. Mae hwn yn faes y mae angen ei archwilio ymhellach gan nad ydym yn ymwybodol ar hyn o bryd am faint o amser y bydd y cyfyngiadau Covid-19 yn eu lle.

Mae canfyddiadau tenantiaid wedi newid yn sylweddol ers dechrau'r pandemig. Nododd 35% yn fwy o denantiaid y byddent bellach yn teimlo'n gyfforddus yn caniatáu gweithwyr yn eu cartrefi pe bai'r mesurau diogelwch cywir ar waith. Mae hyn yn cynnwys masgiau wyneb, mesurau pellhau cymdeithasol a glanweithyddion dwylo. Roedd yn amlwg bod y rhai nad oeddent yn caniatáu mynediad yn uniongyrchol gysylltiedig â bod yn agored iawn i niwed a dioddef gyda phryder. Mae'n ddigon posib y bydd yr hinsawdd bresennol yn gwaethgu'r pryder hwn.

Bydd cynyddu cyfathrebu â thenantiaid yn sicrhau eu bod yn teimlo'n wybodus a'u bod yn cael cefnogaeth lawn. Gall y problemau sy'n wynebu tenantiaid ar hyn o bryd o ran mwy o unigrwydd ac arwahanrwydd gael eu lleihau gan landlordiaid, sydd mewn sefyllfa unigryw i gynnig cefnogaeth i denantiaid yn ystod amseroedd mor ansicr. Y thema sy'n rhedeg trwy gydol yr adroddiad cyfan oedd yr angen am gyfathrebu ychwanegol sy'n cyd-gysylltu â'r holl ffactorau yr hoffai tenantiaid eu gweld gan eu landlordiaid yn y dyfodol.

Cyfeiriadau

Joseph Rowntree Foundation: <https://www.jrf.org.uk/report/poverty-wales-2020>

Diolchiadau

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'n panel Pwls Tenantiaid am eu hysbrydoliaeth barhaus a'u hymrwymiad i gymryd rhan yn ein harolygon. Mae eich mewnbwn yn cael ei werthfawrogi'n wirioneddol ac mae'n helpu i lunio dyfodol tai.

Hoffem hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru am ariannu'n rhannol TPAS Cymru fel sefydliad ac i Wales & West am y prif nawdd trwy gydol y flwyddyn.

Ynghylch TPAS Cymru



Mae TPAS Cymru wedi cefnogi tenantiaid a landlordiaid yng Nghymru ers dros 30 mlynedd i ddatblygu cyfranogiad tenantiaid a chymuned effeithiol trwy hyfforddiant, cefnogaeth, prosiectau ymarferol a datblygu polisi. Yn lleol rydym yn cefnogi grymuso cymunedau trwy gyngor ymarferol, cefnogaeth, hyfforddiant a gwaith prosiect.

Ar lefel y Llywodraeth, rydym yn cyfrannu at newidiadau polisi trwy weithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod llais y tenant yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.



Pwls Tenantiaid yw llais tenantiaid yng Nghymru.

www.tpas.cymru/pulse. Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw:

- i) Canfod beth sydd bwysicaf i denantiaid
- ii) Rhyddhau arolygon rheolaidd
- iii) Cynnal rafflau gwobrau i wobrwyo pobl sy'n cymryd rhan

Defnyddir canlyniadau ein harolygon gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid, ac sy'n helpu i wneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.


Tenant Voice sponsor



Mae Pwls Tenantiaid yn rhan o raglen o waith sy'n ceisio hyrwyddo llais tenantiaid. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Grŵp Pobl sy'n noddi'r gwaith hwn.

I gwrdd ag un o'n tîm i drafod y pwyntiau a godwyd, cysylltwch â: Elizabeth@tpas.cymru

Atodiad A



Atodiad B

So we can understand you better, are you a:

